

Rhybudd Preifatrwydd Data



Personol

Yn ddilys o 25 Mai 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Gwybodaeth amdanoch chi rydym yn ei chadw	3
3. I ba bwrpas y defnyddiwn eich gwybodaeth a'r sail gyfreithiol dros wneud	4
4. Pwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â nhw	9
5. Yswiriant	10
6. Rhannu'ch gwybodaeth gydag awdurdodau treth y tu allan i'r DU	10
7. Asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau rhwystro twyll	11
8. Trosglwyddo data yn rhyngwladol	12
9. Cadw'ch data	12
10. Eich hawliau	13
11. Prosesu awtomatig	13
12. Cwcis	15
13. Sut i gysylltu â ni	15
14. Newidiadau i'r Rhybudd Preifatrwydd	15

1. Cyflwyniad

Mae Barclays wedi ymrwymo i warchod yr wybodaeth amdanoch chi yr ydym yn ei chadw. Mae'r rhybudd preifatrwydd yma yn disgrifio sut, pryd a pham y gallai Barclays Bank UK PLC ("ni") ddefnyddio'ch gwybodaeth, ynghyd â'ch hawliau parthed yr wybodaeth hon.

Mae'r rhybudd preifatrwydd hwn hefyd yn rhoi manylion i chi ynglŷn â sut y bydd eraill yn defnyddio'ch data personol, fel aelodau eraill o Grŵp Barclays. Darllenwch adran 4 "Pwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â nhw" am ragor o fanylion ynglŷn â hyn.

Byddwch cystal â nodi y gallai rhai adrannau o'r rhybudd hwn fod yn berthnasol dim ond i gwsmeriaid sy'n dal cyfrifon penodol gyda ni, er enghraifft, cwsmeriaid Rheoli Cyfoeth, Premier neu Forgais. Yn yr achosion hyn, rydym wedi nodi'r ffaith yn y rhybudd hwn.

2. Gwybodaeth amdanoch chi rydym yn ei chadw

Yn aml daw'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi oddi wrthoch chi'n uniongyrchol (e.e. wrth ichi wneud cais am gynnwys newydd), gan gynnwys y canlynol:

- manylion personol (e.e. enw, dyddiad geni, gwybodaeth pasbort neu wybodaeth adnabod arall);
- manylion cyswllt (e.e. rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post neu rif ffôn symudol);
- gwybodaeth fiometrigrig (e.e. adnabod llais wrth ichi alw rhai o'n canolfannau galw, yn ogystal ag adnabod yr wyneb ar gyfer rhai cynhyrchion);
- manylion am drafodion (e.e. taliadau ichi eu gwneud a'u derbyn);
- gwybodaeth ariannol (e.e. rhif cyfrif banc, rhifau cardiau credyd neu ddebyd, hanes ariannol) gan gynnwys gwybodaeth y byddwch yn ei ddarparu er mwyn dechrau gwasanaethau darparu taliadau a gwybodaeth gwasanaethau cyfrifon parthed cyfrifon sydd gennych gyda darparwyr eraill;
- gwybodaeth am eich iechyd a'ch ffordd o fyw (e.e. er mwyn cwrdd â'n hoblygiadau rheoleiddiol, gan gynnwys benthyca cyfrifol);
- gwybodaeth am droseddau ichi eich cael yn euog ohonynt (e.e. ar gyfer ceisiadau morgais); a
- gwybodaeth am unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau eraill gan Barclays sydd gennych chi ar hyn o bryd, neu'r ydych chi wedi ymgeisio amdanynt, neu wedi bod â nhw yn y gorffennol.

Os na ddarparwch chi ddata personol yr ydym wedi dweud wrthyf ei fod yn orfodol ei roi, fe allai hynny olygu na fydd modd inni ddarparu'r gwasanaethau ichi a/neu gyflawni'n hoblygiadau o dan ein cytundeb â chi.

Byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth amdanoch chi y byddwn wedi ei chasglu o ffynonellau eraill, gan gynnwys:

- y modd y defnyddiwch ein canghennau, gwasanaethau ffôn, gwefannau neu apps symudol;
- eich rhyngweithio gyda ni, er enghraifft, drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu lwybrau eraill;
- eich dyfeisiau digidol lle byddwn yn cynnal amrywiol wiriadau er mwyn sicrhau a gwirio'ch preswiliad er mwyn ein galluogi i gwrdd â'n hoblygiadau rheoleiddiol. Bydd y gwiriadau hyn yn cynnwys adnabod y cyfeiriad IP y mae'ch dyfais yn cysylltu drwyddo a chasglu gwybodaeth am eich defnydd o'r wefan neu'r app symudol (gan gynnwys y math o ddyfais, y system weithredu, manylder y sgrin, a'r modd y byddwch yn rhyngweithio gyda ni);
- y ffordd y defnyddiwch eich cyfrifon, gan gynnwys gwybodaeth am daliadau y byddwch yn eu gwneud neu eu derbyn, fel y dyddiad, y swm, yr arian cyfred, a'r manylion am bwy sy'n talu neu'n derbyn (er enghraifft, manwerthwyr neu unigolion eraill);
- os wnaethoch chi ddefnyddio neu hawlio yn erbyn unrhyw un o'r cynhyrchion a gwasanaethau ichi eu cymryd gyda'ch cyfrif cyfredol e.e. yswiriant teithio, ffôn neu declyn;
- ein cofnodion ein hunain am unrhyw gyfrifon neu wasanaethau eraill sydd gennych chi gyda ni neu ddarparwyr eraill;
- gwybodaeth gan asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau rhwystro twyll;
- gwybodaeth amdanoch chi sydd ar gael yn gyhoeddus arlein neu fel arall;

- cyrff sy'n darparu eu data eu hunain, neu ddata oddi wrth drydydd partïon eraill, i'n galluogi i wella'r data personol yr ydym yn ei gadw, ac yna i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau mwy perthnasol a diddorol ichi;
- gwiriadau a gwybodaeth am gofnodion troseddu;
- cyflogwyr;
- deiliaid cyfrifon ar y cyd;
- pobl a benodwyd i weithredu ar eich rhan;
- asiantaethau gwirio credyd (a allai wirio'r wybodaeth yn erbyn cronfeydd data eraill – cyhoeddus neu breifat – y mae ganddynt fynediad atynt);
- banciau a sefydliadau ariannol eraill (er enghraifft oherwydd ichi ofyn inni ddangos eich cyfrifon eraill ar ein platfformau, ein bod wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â thaliadau a wnaed mewn camgymeriad, neu oherwydd ichi drosglwyddo'ch cyfrif atom);
- asiantaethau rhwystro twyll; a
- ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus, fel straeon ar y cyfryngau.

Os ydych yn rhoi data personol am bobl eraill inni (fel dibynyddion neu ddeiliad cyfrifon ar y cyd) y byddwn yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau, neu os gofynnwch inni rannu'r wybodaeth gyda thrydydd partïon, er enghraifft i ddarparu gwasanaethau dechrau taliadau neu wybodaeth cyfrifon, yna rydych yn cadarnhau eich bod yn gwybod eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth yn y rhybudd hwn a sut y byddwn yn defnyddio'u data personol.

3. I ba bwrpas y defnyddiwn eich gwybodaeth a'r sail gyfreithiol dros wneud

Mae'n rhaid inni gael sail gyfreithiol dros brosesu'ch data personol. Yn y rhan fwyaf o achosion, y sail gyfreithiol fydd un o'r canlynol:

- i'n galluogi i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn eich darparu gyda'r cynnyrch / gwasanaeth (cyflawni cytundeb), er enghraifft, i wneud a derbyn taliadau;
- i'n galluogi i gwrdd â'n hobblygiadau cyfreithiol, er enghraifft, i gael prawf o hunaniaeth er mwyn ein galluogi i gwrdd â'n hobblygiadau i rwystro gwyngalchu arian;
- i gwrdd â'n buddion cyfiawn, er enghraifft, i ddeall sut y bydd cwsmeriaid yn defnyddio'n gwasanaethau ac i ddatblygu gwasanaethau newydd, yn ogystal â gwella'r gwasanaeth y darparwn ar hyn o bryd;
- lle bo gennym eich caniatâd i wneud felly; neu
- mewn achos o gategoriâu arbennig o ddata personol, ei fod o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

Mae'r tabl isod yn egluro'r rhesymau pam y byddwn yn defnyddio'ch data personol a'n sail gyfreithiol dros wneud. Lle byddwn yn dibynnu ar fudd cyfiawn, caiff hynny hefyd ei nodi isod:

I ba bwrpas y defnyddiwn eich gwybodaeth	Y sail gyfreithiol dros wneud
<p>I ddarparu, rheoli a phersonoleiddio ein gwasanaethau ichi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • I gyfathrebu â chi ynglŷn â'ch cynnyrch / gwasanaeth am resymau cyfreithiol, rheoleiddiol a gwasanaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel bo'r angen i gyflawni'n cytundeb neu i gymryd camau tuag at ddechrau cytundeb â chi. • Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny. • Lle bod ein buddion cyfiawn yn galw arnon ni i sicrhau bod cyfrifon ein cwsmeriaid yn cael eu rheoli'n dda, fel ein bod yn darparu safon uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid, er mwyn gwarchod ein buddion masnachol a buddion ein cwsmeriaid. • Fel bo'r angen i gyflawni'n cytundeb neu i gymryd camau tuag at ddechrau cytundeb â chi.

- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- I reoli cwynion, ymgymryd â gweithgareddau adferol (e.e. Yswiriant Gwarchod Taliadau) ac i ddelio ag ymholiadau.
- Fel bo'r angen i gyflawni'n cytundeb neu i gymryd camau tuag at ddechrau cytundeb â chi.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bod ein buddion cyfiawn yn galw arnon ni i sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio, er enghraifft, fel bod ein cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth o safon uchel ac i'n galluogi i rwystro cwynion rhag codi yn y dyfodol.

Er mwyn gwirio'ch cyfarwyddiadau inni, dadansoddi, asesu neu wella ein gwasanaethau, ac am resymau hyfforddiant ac ansawdd. Gallwn fonitro neu gofnodi unrhyw gyfathrebiad rhyngoch chi a ni, gan gynnwys galwadau ffôn.

I ddatblygu a gwella cynhyrchion drwy asesu a dadansoddi'r wybodaeth, gan gynnwys sgorio credyd neu ymddygiadol (neu'r ddau), dadansoddi'r farchnad a'r cynnyrch, ac ymchwilio i'r farchnad. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ystadegol â chi i'ch helpu i ddeall eich ymddygiad gwario mewn cymhariaeth â thueddiadau cyffredinol cwsmeriaid a'ch helpu i arbed arian.

I gynnal gwiriadau er budd diogelwch, darganfod a rhwystro twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio'ch hunaniaeth cyn inni ddarparu gwasanaethau ichi.

I gysylltu â chi gyda deunydd marchnata a chynigion yn ymwneud â chynhyrchion a gwasanaethau a gynigir ganom ni a/neu aelodau eraill o Grŵp Barclays (oni bai ichi fod wedi eithrio'ch hun rhag derbyn deunydd marchnata, neu inni gael ein rhwystro rhag ei anfon o dan y gyfraith).

Os ydych neu am fod yn gwsmer Premier: Fel rhan o'n gwasanaeth Premier bydd ein Rheolwr Perthynas Premier a/neu'r Tîm Premier yn cysylltu â chi parthed y cynhyrchion a gwasanaethau Premier sydd ar gael ichi.

Gallwn rannu peth data personol (e.e. rhif ffôn symudol neu gyfeiriad e-bost) mewn ffurf amgryptiedig gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol fel eu bod yn gallu paru hyn â data personol sydd eisoes yn eu meddiant er mwyn dangos negeseuon ichi am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.

I adfer dyled ac i orfodi oblygiadau eraill y mae gennym yr hawl iddynt o dan ein cytundeb(au) â chi,

yn ogystal â gwarchod ein hunain rhag niwed i'n hawliau a'n diddordebau eiddo.

- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bod ein buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddatblygu a gwella'n systemau, hyfforddi'n staff a darparu'n cwsmeriaid gyda gwasanaeth o safon uchel.
- Lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bod ein buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddatblygu a gwella'n cynhyrchion a gwasanaethau i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau y bydd ein cwsmeriaid am eu defnyddio ac i sicrhau bod ein model busnes yn parhau'n gystadleuol.
- Lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bo ein buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddarganfod, rhwystro ac ymchwilio i dwyll, gwyngalchu arian a throseddau eraill, ac i wirio'ch hunaniaeth er mwyn gwarchod ein busnes.
- Lle bo ein buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddarparu chi â gwybodaeth am ein cynhyrchion a gwasanaethau a allai fod o ddiddordeb.
- Mewn cysylltiad â marchnata uniongyrchol, lle mae ganom eich caniatâd i wneud.
- Lle bo ein buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddarparu chi â gwybodaeth am ein cynhyrchion a gwasanaethau a allai fod o ddiddordeb.
- Lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.

- Lle bo'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni sicrhau y caiff ein busnes ei redeg yn ddoeth a'n bod yn gallu adfer dyledion sy'n ddyledus inni, yn ogystal â sicrhau bod ein hasedau wedi eu gwarchod.

Er mwyn ymgeisio am neu dderbyn dyfynbrisiau am gynnyrch cwmni/sefydliad yswiriant, yn ogystal â chynorthwyo darparwyr y fath yswiriant gyda gweinyddiad a gwasanaethu cyffredinol eich yswiriant.

I ddarparu (os gofynnwch inni) gwasanaethau dechrau taliadau a gwybodaeth cyfrifon parthed cyfrifon sydd gennych gyda darparwyr eraill, neu le bo darparwyr trydydd parti yn gofyn inni ddarparu gwasanaethau gwybodaeth cyfrifon a dechrau taliadau parthed cyfrifon sydd gennych gyda ni (os gofynnwch i ddarparwr trydydd parti wneud y cais).

I wirio'ch hunaniaeth a hunaniaeth deiliaid cyd-gyfrif, er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg adnabod llinell y galwr i wirio ein bod yn siarad gyda'r person iawn.

I rwystro a darganfod twyll, gwyngalchu arian a throseddau eraill (fel lladrata hunaniaeth). Er enghraifft, fe allwn ddefnyddio teledu cylch cyfyng yn ac o gwmpas ein heiddo i fonitro a chasglu delweddau neu recordiadau o'ch llais (neu'r ddau). Fe allwn hefyd ddefnyddio technoleg adnabod llinell y galwr i wirio ein bod yn siarad gyda'r person iawn. Fe allwn hefyd wirio eich bod yn yr un wlad neu ger yr un lleoliad lle mae'ch taliadau yn cael eu gwneud. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio'ch manylion i gadarnhau os yw'ch cerdyn a'ch dyfais symudol yn neu ger yr un lleoliad. Gall hyn helpu i rwystro twyll yn erbyn eich cyfrif a lleihau'r tebygolrwydd o'ch taliadau yn cael eu gwrthod tra eich bod oddi allan i'r DU. Ni ddefnyddiwn yr wybodaeth hon at unrhyw ddiben arall. Gallwch ofyn inni roi stop ar y warchodaeth yma rhag twyll ar eich cyfrif drwy ysgrifennu atom neu'n ffonio.

I gydymffurfio ag oblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol yr ydym yn amodol iddynt ac i gydweithredu â rheoleiddwyr a chyrrff gorfodi'r gyfraith.

- Lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bo'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni allu cynnig cynhyrchion yswiriant ichi ac i gael dyfynbrisiau am y cynhyrchion hyn.
- Mewn achos o allforio data (e.e. rhoi data i gydgasglwyr gwasanaethau taliadau), lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Mewn achos o fewnforio data (e.e. arddangos eich cyfrifon eraill), lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bo angen i sicrhau cyflawniad ein cytundeb neu er mwyn cymryd camau i ymuno mewn cytundeb â chi.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bo'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni wirio'ch hunaniaeth er mwyn gwarchod ein busnes a chydymffurfio â deddfau dilys.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle bo'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni rwystro ac ymchwilio i dwyll, gwyngalchu arian a throseddau eraill, ac i wirio'ch hunaniaeth er mwyn gwarchod ein busnes a chydymffurfio â deddfau y mae'n ofynnol inni wneud.
- Lle bo prosesu o'r fath yn amod cytundebol o'r gwasanaethau neu'r ariannu ichi ofyn amdanynt.
- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle mae'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni warchod ein busnes.
- At y defnydd o ddata sensitif (gweler isod), lle mae diddordeb cyhoeddus sylweddol.

I ba bwrpas y defnyddiwn eich gwybodaeth

Y sail gyfreithiol dros wneud

I baratoi adroddiadau ystadegol anhysbysiedig lefel uchel a allai gynnwys manylion fel y canran o bobl sy'n defnyddio'r trenau tanddaearol yn Llundain neu oedran pobl sy'n cymryd cynnyrch penodol. Ry'n ni'n crynhoi'r adroddiadau hyn o wybodaeth amdanoch chi a chwsmeriaid Barclays eraill. Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn byth yn bersonol ac ni fydd byth fodd o'ch adnabod ohonynt. Gallwn rannu'r adroddiadau ystadegol ac anhysbysiedig hyn gyda thrydydd partïon, gan gynnwys cwmnïau oddi allan i Barclays, neu fe allan ni eu defnyddio at ein pwrpas dadansoddol ein hunain e.e. i ddadansoddi ein risg credyd.

I bersonoleiddio'r negeseuon marchnata yr anfonwn atoch i'w gwneud yn fwy perthnasol a difyr.

Am fwy o wybodaeth parthed pryd y byddwn yn rhoi stop ar brosesu'ch data ar gyfer dibenion marchnata, gweler adran 11 "Prosesu Awtomatig".

Pan fyddwn yn prosesu data personol er mwyn sicrhau ein buddion cyfiawn, rhown mewn lle warchodaeth gadarn i sicrhau y caiff eich preifatrwydd ei ddiogelu ac i sicrhau na fydd ein buddion cyfiawn yn drech na'ch buddion chi na'ch hawliau a rhyddid sylfaenol.

Categoriâu arbennig o ddata

Bydd peth o'r wybodaeth y casglwn yn perthyn i gategoriâu arbennig o ddata personol (caiff hefyd ei adnabod fel data personol sensitif). Yn neilltuol, gallwn brosesu data personol parthed eich iechyd (fel eich hanes meddygol), data biometrig, ac unrhyw droseddau ichi eich cael yn euog ohonynt. Lle ry'n ni'n prosesu data personol sensitif o'r math, gwnawn fel arfer ar y sail ei fod yn angenrheidiol am resymau sydd o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol, er mwyn sefydlu, ymarfer neu amddiffyn unrhyw hawliadau cyfreithiol, neu mewnrhai achosion, gyda chaniatâd. Doed a ddelo, byddwn yn cynnal y prosesu yn unol â'r deddfau cymwys.

I ba bwrpas y defnyddiwn eich data sensitif

Y sail gyfreithiol dros wneud

Os ydych yn gwsmer Rheoli Cyfoeth, gall gwiriadau diwydrwydd dyladwy y bydd Barclays yn eu cynnal ddatgelu'ch barn wleidyddol neu wybodaeth am droseddau ichi eich cael yn euog ohonynt.

Gallwn ddefnyddio'ch data biometrig at ddiben rhai o'r rhesymau a nodir uchod e.e. i ganfod a rhwystro twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio'ch hunaniaeth.

- Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny.
- Lle mae'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddatblygu a pharatoi'r adroddiadau hyn i'n galluogi i ddeall yn well sut y mae cwsmeriaid yn defnyddio'n cynhyrchion a pha newidiadau y gallwn eu cyflwyno i'w gwella.
- Lle mae'n buddion cyfiawn yn mynnu y dylen ni ddarparu cwsmeriaid gyda gwybodaeth sy'n fwy perthnasol i'w sefyllfa.

- Lle mae hyn o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.
- Lle bydd ganom eich caniatâd ar gyfer y defnydd opsiynol o fiometreg (fel eich patrwm lleisiol i'ch adnabod ar systemau adnabod llais).
- Lle mae o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.
- Lle mae o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

Gallwn ddefnyddio'ch gwybodaeth feddygol at ddiben rhai o'r rhesymau uchod e.e. i ddatrys cwynion ac ymholiadau, ac i helpu i ddarparu, rheoli a phersonoleiddio'n gwasanaethau ichi, i ymgeisio am neu gael dyfynbrisiau am gynnyrch cwmni yswiriant.

- Lle bo gennym eich caniatâd i wneud, fel gosod nodwr ar eich cyfrif sy'n dweud wrthyn eich bod yn drwm eich clyw neu'n gweld yn wael fel eich bod angen mantolen mewn braille.

Gallwn ddefnyddio'ch gwybodaeth feddygol a data euogfarnau troseddol i ohirio'ch taliadau dyledion dros dro ac i'n cynorthwyo wrth ystyried opsiynau addalu addas eraill ar eich cyfer.

- Lle mae o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

I gydymffurfio ag oblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddynt a chyd-weithredu gyda rheoleiddwyr a chyrrff gorfodi'r gyfraith.

Lle bo'n systemau'n dadansoddi gwybodaeth yn ein darparu â data sensitif e.e. mapio taliadau'n ddaearyddol fel ei fod yn dangos ichi dreulio amser mewn cynhadledd wleidyddol bleidiol.

- Lle mae o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.
- Lle bo gennym eich caniatâd i wneud.

Byddwn yn anfon negeseuon drwy'r post, ffôn, testun, e-bost a dulliau digidol eraill, gan gynnwys er enghraifft drwy ein peiriannau twll yn y wal, appiau symudol, hysbysiadau pwnio, neu wasanaethau bancio arlein (a dulliau newydd a allai fod ar gael yn y dyfodol). Gallai'r negeseuon hyn fod:

- i'ch cynorthwyo i reoli'ch cyfrif(on).
- yn negeseuon mae rheidrwydd arnom eu hanfon i gydymffurfio gyda'n hoblygiadau rheoleiddiol, fel newidiadau i'ch cytundebau, ac i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i reoli'ch arian.
- i'ch hysbysu o nodweddion a buddion y cynhyrchion a'r gwasanaethau y darparwn ichi.
- i ddweud wrthy'ch am gynhyrchion a gwasanaethau (gan gynnwys gan ddarparwyr eraill) a allai fod o ddiddordeb ichi – negeseuon marchnata yw'r rhain. Gallwch ofyn inni roi'r gorau i neu ddechrau anfon negeseuon marchnata atoch ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu atom, galw mewn cangen neu'n ffonio neu, os ydych yn gwsmer bancio arlein neu drwy ffôn symudol, pan fyddwch wedi'ch mewngofnodi.

Gallwn sicrhau caniatâd i gasglu a defnyddio mathau penodol o ddata personol pan fynna'r gyfraith ein bod yn gwneud (er enghraifft, ar brydiau pan fyddwn yn prosesu data sensitif neu wrth osod cwcis neu dechnoleg debyg ar ddyfeisiadau neu borwyr). Pe gofynnwn am eich caniatâd i brosesu'ch data personol, fe allwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y rhybudd preifatrwydd hwn, neu os yw'n ymwneud â chwcis neu rywbeth tebyg, drwy ein polisi cwcis ar barclays.co.uk

4. Pwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â nhw?

Cadwn eich gwybodaeth yn gyfrinachol ond fe allwn ei rhannu gyda thrydydd partïon (a fydd hefyd yn gorfod ei chadw'n ddiogel a chyfrinachol) yn y sefyllfaoedd canlynol:

Pwy y rhannwn eich gwybodaeth â nhw a pham

Cwmnïau Grŵp Barclays. Perchenogir Barclays Bank UK PLC gan Barclays PLC, felly gweithiwn yn agos gyda busnesau a chwmnïau eraill sy'n rhan o deulu Grŵp Barclays. Gallwn rannu gwybodaeth benodol gyda chwmnïau eraill Grŵp Barclays Group, er enghraifft, i'ch darparu gyda chynhyrchion a gwasanaethau, at ddibenion marchnata, ar gyfer adrodd mewnol a lle mae'r cwmnïau hynny yn darparu gwasanaethau inni.

Darparwyr gwasanaethau prosesu taliadau ac eraill sy'n ein cynorthwyo i brosesu'ch taliadau, yn ogystal â sefydliadau ariannol eraill sy'n aelodau o'r cynlluniau taliadau neu'n ymwneud â gwneud y taliad, lle bo angen hynny mewn perthynas â thaliadau penodol, fel drwy Paym.

Sefydliadau ariannol eraill y byddwch yn gofyn inni ddelio â nhw, er enghraifft wrth ichi symud eich cyfrif oddi wrth Barclays.

Darparwyr gwasanaeth trydydd parti annibynnol y byddwch chi (neu drydydd parti wedi ei awdurdodi'n iawn i roi cyfarwyddiadau yn erbyn eich cyfrif) yn gofyn inni rannu gwybodaeth gyda nhw, er enghraifft, dechrau taliadau neu wasanaethau gwybodaeth cyfrifon. Pe byddai'r fath wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r trydydd partïon hyn, yna ni fydd gennym unrhyw reolaeth ar sut y caiff yr wybodaeth honno ei defnyddio. Bydd angen ichi (neu berson(au) gydag awdurdod dros eich cyfrif) gytuno ar yr ystod o'r fath ddefnydd yn uniongyrchol gyda'r trydydd parti.

Cwmnïau ichi eu talu o'ch cyfrif Barclays sy'n gofyn am ein cynorthwy fel eu bod yn gallu cymhwyso taliad atoch (oherwydd nas dderbynion nhw'r wybodaeth roedd ei hangen arnynt gyda'r taliad), er enghraifft, cwmnïau gwasanaethau.

Ein darparwyr ac asiantau gwasanaethau (gan gynnwys eu his-gontractwyr). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, asiantau ymgasglu trydydd parti, neu le y byddwn yn rhoi'ch manylion i rywun fydd yn argraffu'ch mantolenni, neu i ddanfôn anrheg neu arwydd o ewyllys da atoch.

Gallwn rannu'ch data personol gyda'n partneriaid busnes sy'n darparu gwasanaethau ar y cyd â ni, fel y rhai mae eu henw neu logo yn ymddangos ar gerdyn a ddyroddir ichi, er enghraifft gwesty neu gwmni awyrennau neu gynllun cardiau. Gallwn hefyd rannu gwybodaeth gyda darparwyr ac asiantau eraill sy'n darparu'r gwasanaethau ar eu rhan.

Ein partneriaid Pecyn Cyfrif er mwyn eich galluogi i ddefnyddio'u cynhyrchion a gwasanaethau, os oes gennych neu y cewch becyn yn rhan o'ch cyfrif cyfredol. Caiff gwybodaeth rhowch i'r yswiriwr neu ddarparwr gwasanaeth hefyd ei rannu gyda ni, er enghraifft, unrhyw hawliad ichi ymgeisio amdano.

Darparwyr yswiriant, gan gynnwys gwarantyddion yswiriant, deiliaid sicrwydd yswiriant, cyflwynwyr, ymdrinwyr hawliadau a thrydydd partïon eraill cysylltiedig. Pan wnewch chi hawliad yswiriant, gall unrhyw wybodaeth y rhowch inni neu'r yswiriwr gael ei osod ar gofrestr o hawliadau. Caiff hyn ei rannu gydag yswirwyr eraill.

Asiantaethau'r Llywodraeth Er enghraifft, yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, neu ei asiantau, darparwyr/is-gontractwyr trydydd parti, ymgynghorwyr a chwmnïau grŵp, at ddiben rhedeg y Benthyciad Datblygu Proffesiynol a Gyrfaol;

Ar gyfer cwsmeriaid morgais, er mwyn cadarnhau a gwirio'r wybodaeth incwm y darparwch inni, fe allwn rannu gwybodaeth amdanoch chi gyda Chyllid a Thollau EM (CThEM). Fe allai CThEM hefyd ddefnyddio'r wybodaeth y rhown iddynt er mwyn hysbysiad o weithgaredd proffil risg ac i ddangos unrhyw anghydweddu gydag incwm a ddatganwyd.

Unrhyw drydydd parti yn sgil ail-strwythuro, gwerthiant neu bryniant o unrhyw gwmni neu ddyled o eiddo Barclays, cyn hired â bod y person hwnnw/honno yn defnyddio'ch gwybodaeth i'r un diben ac y cafodd ei roi inni neu ei ddefnyddio ganom yn wreiddiol (neu'r ddau);

Unrhyw un y byddwn neu y gallwn drosglwyddo'n hawliau a'n dyletswyddau iddynt yn y cytundeb hwn.

Unrhyw ddarpar warantwr.

Cwmnïau cyfryngau cymdeithasol (gyda'r data mewn ffurf amgryptiedig fel eu bod yn gallu paru hyn gyda data personol sydd eisoes yn eu meddiant) er mwyn arddangos negeseuon ichi am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.

Eich ymgynghorwyr (fel cyfrifyddion, cyfreithwyr, ymgynghorwyr ariannol neu bobl broffesiynol eraill) pe byddech wedi awdurdodi unrhyw un fel hyn i'ch cynrychioli, neu unrhyw berson ichi roi gwybod inni ei fod wedi ei awdurdodi i roi cyfarwyddiadau neu i ddefnyddio'r cyfrif neu gynhyrchion neu wasanaethau ar eich rhan (fel o dan atwrneiaeth);

Rheoleiddwyr yn y DU a thramor, asiantaethau ac awdurdodau gorfodi'r gyfraith mewn cysylltiad â'u dyletswyddau, fel rhwystro troseddu (boed hynny'n uniongyrchol neu drwy drydydd partïon fel asiantaethau gwirio credyd), neu wrth gyflawni ymchwil ystadegol cymdeithasol neu economaidd. Gallai hyn gynnwys manylion taliadau (gan gynnwys gwybodaeth am eraill sy'n ymwneud â'r taliad).

Asiantaethau rhwystro twyll. Yn neilltuol, byddwn wastad yn rhoi gwybod i asiantaethau rhwystro twyll os rhowch chi wybodaeth anwir neu dwyllodrus inni. Fe fyddent hefyd yn caniatáu i sefydliadau eraill (yn y DU a thramor), gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, i gael mynediad at yr wybodaeth yma er mwyn rhwystro a darganfod twyll neu droseddau eraill. Gallwch ofyn inni am fanylion yr asiantaethau rhwystro twyll yr ydym yn rhannu gwybodaeth â nhw.

Asiantaethau gwirio credyd. Am ragor o wybodaeth ar hyn, gwelwch isod, os gwelwch yn dda.

Oherwydd inni weithredu fel rhan o fusnes byd-eang, fe allai rhai o'r derbynyddion uchod fod wedi eu lleoli oddi allan i'r awdurdodaeth yr ydych chi wedi eich lleoli ynddi (neu yr ydym ni yn darparu'r gwasanaethau ynddi). Byddwch cystal â gweld yr adran ar "Drosglwyddo Data yn Rhyngwladol" isod am fwy o wybodaeth.

5. Yswiriant

Os cymerwch gynnyrch yswiriant drwom ni (Barclays Bank UK PLC neu gwmni arall sy'n rhan o Grŵp Barclays Bank UK PLC o gwmnïau) byddwn yn rhannu'ch data personol gyda'r yswiriwr perthnasol er diben y polisi.

Caiff manylion am sut y gall ein partneriaid yswiriant ddefnyddio'ch data (gan gynnwys unrhyw ddata personol y rhowch iddynt yn uniongyrchol) eu cynnwys yn rhybuddion preifatrwydd yr yswirwyr, a fydd ar gael ichi cyn ichi brynu'r polisi.

6. Rhannu'ch gwybodaeth gydag awdurdodau treth y tu allan i'r DU

Fe allai bod gofyn arnom drwy gyfraith neu reoleiddiad i rannu gwybodaeth am eich cyfrifon gydag awdurdodau treth yn y DU neu leoedd perthnasol eraill, un ai'n uniongyrchol neu drwy'r awdurdod treth lleol. Fe allai'r awdurdod treth y rhannwn y wybodaeth â nhw yna rannu'r wybodaeth gydag awdurdodau treth eraill perthnasol.

Os byddwn angen dogfennau neu wybodaeth bellach oddi wrthyhych parthed hyn, bydd raid ichi eu cyflenwi. Os na wnewch chi, fe allai y bydd rhaid inni gau'ch cyfrif neu, os bydd y gyfraith neu reoleiddiadau eraill yn mynnu, fe fyddwn yn atal rhannau o rai taliadau a dderbyniwyd i'ch cyfrif ac yn eu cyflwyno i'r awdurdodau treth perthnasol. Am ragor o wybodaeth ar drosglwyddo'ch data yn rhyngwladol, byddwch cystal â gweld yr adran

“Trosglwyddo Data yn Rhyngwladol” isod.

7. Asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau rhwystro twyll

Rydym yn cynnal gwiriadau credyd a hunaniaeth arnoch gydag un neu fwy o asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau rhwystro twyll. I wneud hyn, byddwn yn cyflenwi'ch data personol i'r asiantaethau gwirio credyd a'r asiantaethau rhwystro twyll ac fe fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth amdanoch chi inni.

Byddwn hefyd yn parhau i gyfnewid gwybodaeth amdanoch chi gydag asiantaethau gwirio credyd tra y byddwch mewn perthynas â ni. Yn eu tro, fe allai'r asiantaethau gwirio credyd rannu'ch data personol gyda sefydliadau eraill, a allai gael ei ddefnyddio gan y sefydliadau hynny i gymryd penderfyniadau yn eich cylch. Fe allai hynny effeithio ar eich gallu i sicrhau credyd.

Fe allwn hefyd barhau i gasglu gwybodaeth amdanoch chi oddi wrth asiantaethau gwirio credyd ar ôl i'ch cyfrif cael ei gau.

Mae'r enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y gallai'ch gwybodaeth neu wybodaeth yn ymwneud â'ch cymar neu aelodau eraill o'ch cartref gael eu rhannu yn cynnwys:

- gwirio'r manylion ar geisiadau am gynhyrchion a gwasanaethau;
- gwneud asesiadau credyd a fforddiadwyedd er mwyn penderfynu a gaiff eich cais ei dderbyn ac i ddarparu terfynnau credyd;
- rheoli cyfrifon ac adnoddau credyd neu sy'n ymwneud â chredyd;
- olrhain eich cyfeiriad fel y gallwn barhau i gysylltu â chi parthed unrhyw gynnyrch, cynhyrchion neu gyfrif(on) sydd neu oedd gennych chi gyda ni, yn ogystal ag adfer unrhyw ddyledion sydd gennych;
- gwirio'r manylion ar gynigion a hawliadau ar bob math o yswiriant;
- gwirio'ch hunaniaeth yn rheolaidd er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a'r gyfraith;
- darparu gwasanaethau gwirio hunaniaeth ichi lle'r ydych wedi gofyn i'r llywodraeth, neu drydydd parti, i gadarnhau'ch hunaniaeth;
- gwneud ymholiadau pan ofynnwch chi am unrhyw gynhyrchion benthycu neu gynhyrchion buddsoddi ac i'ch cynorthwyo i reoli'ch cyfrif;
- deall eich sefyllfa ariannol drwy rannu a derbyn gwybodaeth, er enghraifft, parthed unrhyw fenthycu (gan gynnwys benthycu oddi allan i Barclays) a sut yr ydych yn ei reoli. Bydd hyn yn cynnwys y swm a fenthycwyd a'ch hanes taliadau, gan gynnwys unrhyw drefniadau talu;
- i hysbysu a chreu erfynion modelu, e.e. er mwyn asesu pa mor debygol yw hi y bydd cwsmer yn buddsoddi mewn neu'n agor cynnyrch newydd, neu er mwyn ein cynorthwyo i wella'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid; ac
- er mwyn diweddarau neu ychwanegu data personol na chaiff ei gynnwys neu sy'n anghywir yn ein cofnodion er mwyn cwrdd â'n oblygiadau cyfreithiol neu reoleiddiol.

Nid ydym yn rhoi gwybodaeth am gyfrifon cynilo i asiantaethau gwirio credyd.

Mae'r Rhybudd Gwybodaeth Asiantaeth Gwirio Credyd (CRAIN) yn disgrifio sut yr aiff y tair prif asiantaeth gwirio credyd yn y DU ati i ddefnyddio a rhannu data personol. Mae'r CRAIN ar gael ar wefanau'r asiantaethau gwirio credyd:

- www.callcredit.co.uk/crain
- www.equifax.co.uk/crain
- www.experian.co.uk/crain

Gallwch fynd at barclays.co.uk/control-your-data am fanylion o'r asiantaethau gwirio credyd y byddwn yn rhannu gwybodaeth â nhw.

Gallai'ch gwybodaeth fod wedi ei gysylltu â phobl sy'n gysylltiedig â chi, fel eich cymar neu aelodau eraill o'ch cartref.

Gelwir y cofnodion hyn yn gofnodion cysylltiedig. Gallai unrhyw ymholiad a wnawn gydag asiantaeth gwirio credyd gael ei ateb gyda chyswllt at gofnodion unrhyw berson cysylltiedig. Bydd cofnodion person arall yn gysylltiedig â'ch rhai chi pan:

- fyddwch yn gwneud cais ar y cyd;
- fyddwch yn dweud wrthym am gysylltiad ariannol gyda pherson arall – er enghraifft, eu bod yn bartner busnes;
- fydd gan asiantaeth gwirio credyd gofnodion cysylltiedig.

Bydd unrhyw gyswllt o'r math yn cael ei ddwyn i gyfrif mewn unrhyw gais yn y dyfodol gan y naill neu'r llall ohonoch chi, neu ar y cyd. Bydd hynny'n parhau hyd nes i un ohonoch chi ymgeisio i'r asiantaethau gwirio credyd yn llwyddiannus am ddatgysylltiad, fydd yn caniatáu i'ch gwybodaeth gael ei ddatgysylltu. Gallwch wirio am unrhyw gysylltiadau o'r fath drwy gael eich cofnod credyd yn uniongyrchol o'r asiantaethau gwirio credyd.

Callwn ni ac asiantaethau rhwystro twyll hefyd alluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gael mynediad at a defnyddio'ch data personol er mwyn canfod, ymchwilio i a rhwystro troseddu. Os caiff twyll ei ganfod, fe ellir ichi gael eich gwrthod rhag derbyn gwasanaethau a chyllid penodol.

Gall asiantaethau rhwystro twyll gadw'ch data personol am gyfnodau gwahanol o amser, ac os ystyrir chi i fod yn risg o ran twyll neu wyngalchu arian, fe all eich data gael ei gadw am hyd at chwe blynedd.

8. Trosglwyddo data yn rhyngwladol

Pan fyddwn ni neu asiantaethau rhwystro twyll yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau mewn awdurdodaeth arall, byddwn yn sicrhau eu bod yn cytuno i roi'r un lefel o warchodaeth i ddata personol ac y gwnawn ni. Os nad yw hyn yn bosib – er enghraifft, oherwydd bod rheidrwydd arnom drwy gyfraith i ddatgelu gwybodaeth – byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth honno'n cael ei rhannu'n gyfreithlon. Hefyd, os nad ydynt mewn awdurdodaeth lle mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried bod gwarchodaeth ddigonol ar ddata personol, rhoddwn warchodaeth addas mewn lle (fel ymrwymadau cytundebol), yn unol â'r gofyniadau cyfreithiol perthnasol, i sicrhau y gwarchodir eich data yn ddigonol.

Os gofynnwch inni rannu gwybodaeth gyda thrydydd partiön sy'n darparu gwasanaethau dechrau taliadau neu wybodaeth cyfrifon (un ai yn y DU neu wlad arall), byddwn yn dibynnu ar eich cais (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i rannu'r wybodaeth berthnasol. Nid oes unrhyw reolaeth gennym dros arferion trydydd parti o'r fath. Argymhellwn eich bod chi (neu'r person(au) gydag awdurdod dros eich cyfrif) yn ystyried arferion ymdrin â gwybodaeth y trydydd parti hwnnw cyn gofyn am eu gwasanaeth drwy ddarllen eu rhybuddion preifatrwydd neu drwy gysylltu â nhw a sicrhau eich bod yn gyffyrddus gyda sut y byddant yn ymdrin â'ch gwybodaeth.

9. Cadw'ch data

Byddwn yn cadw'ch data am gyn hired ag y byddwn mewn perthynas â chi. Unwaith i'n perthynas â chi ddod i ben (e.e. yn sgil cau'ch cyfrif neu'n dilyn trafodiad), neu i'ch cais am gynnrych gael ei wrthod neu ichi benderfynu peidio â bwrw 'mlaen gydag ef, byddwn yn cadw'ch data dim ond am gyfnod o amser caiff ei gyfrifo gan ddibynnu ar y math o ddata personol, a'r rheswm pam y caiff y wybodaeth honno ei chadw.

Byddwn ond yn cadw gwybodaeth sy'n ein galluogi i:

- I gynnal cofnodion busnes at ddibenion dadansoddi a/neu archwilio;
- I gydymffurfio gyda gofyniadau dargadw cofnodion o dan y gyfraith (er enghraifft, fel y mae'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhwystro, darganfod ac ymchwilio i wyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth);
- I amddiffyn neu ddechrau unrhyw ddarpar hawliadau cyfreithiol neu hawliadau cyfredol;
- I gynnal cofnodion o unrhyw un nad yw am dderbyn deunydd marchnata oddi wrthym;
- I ddelio gydag unrhyw gwynion yn y dyfodol parthed y gwasanaethau inni eu cyflawni;
- I gynorthwyo gyda monitro twyll; neu
- I asesu effeithlonrwydd unrhyw ddeunydd marchnata y gallwn fod wedi ei anfon atoch.

Bydd y cyfnod dargadw yn aml yn gysylltiedig gyda faint o amser sydd ar gael er mwyn dechrau hawliad

cyfreithiol, sydd mewn sawl achos yn chwech neu saith mlynedd ar ôl cau'ch cyfrif neu'n dilyn trafodiad. Byddwn yn cadw'ch data personol ar ôl yr amser hwn os bydd gofyn arnom i wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, os oes hawliadau neu gwynion heb eu datrys a fydd yn golygu ei bod yn rhesymol inni gadw'ch data personol, neu am resymau rheoleiddiol neu dechnegol. Os gwnawn, byddwn yn parhau i sicrhau y caiff eich preifatrwydd ei warchod.

10. Eich hawliau

Y mae gennych rhai hawliau penodol parthed eich data personol, yn ddarostyngedig i'r gyfraith yn lleol. Mae hyn yn cynnwys yr hawliau canlynol i:

- ofyn am gopi o'r data personol amdanoch chi yr ydym yn ei gadw;
- ofyn inni ddarparu ichi (neu drydydd parti enwebedig) gyda chopi electroneg o'r data personol yr ydych wedi ei ddarparu inni;
- roi gwybod inni am gywiriad i'ch data personol;
- ymarfer eich hawl i gyfyngu ar ein defnydd o'ch data personol;
- ymarfer eich hawl i ddileu'ch data personol; neu
- wrthwynebu ffyrdd penodol yr ydym yn defnyddio'ch data personol.

Bydd eich gallu i ymarfer yr hawliau hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau ac mewn rhai achosion ni fyddwn yn gallu cydymffurfio gyda'ch cais e.e. oherwydd ein bod â sail ddilys dros beidio â gwneud, neu le nad yw'r hawl yn gymwys parthed y data penodol amdanoch chi yr ydym yn ei gadw. Os hoffech chi fwy o wybodaeth am yr hawliau hyn, neu eich bod am eu defnyddio, yna byddwchystal ag anfon cais drwy'ch bancio arlein neu ewch i barclays.co.uk/control-your-data

Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda i ddiweddarau neu gywiro'ch gwybodaeth os bydd yn newid, neu os yw'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi yn wallus.

11. Prosesu awtomatig

Gall y ffordd y dadansoddwn ddata personol mewn perthynas â'n gwasanaethau olygu proffilio, sy'n golygu y gallwn brosesu'ch data personol gan ddefnyddio meddalwedd sy'n gallu cloriannu'ch agweddau personol a darogan risg neu ganlyniadau. Fe allwn hefyd ddefnyddio proffilio, neu fel arall ddefnyddio dulliau hollol awtomatig, i gymryd penderfyniadau yn eich cylch parthed:

- gwiriadau asesu credyd a fforddiadwyedd er mwyn penderfynu a gaiff eich cais ei dderbyn;
- penderfyniadau ar gyfyngiadau credyd;
- gwiriadau rhag gwyngalchu arian a sancsiynau;
- gwiriadau hunaniaeth a gwirio;
- monitro trafodion rhag twyll a throseddau ariannol arall, boed i'ch rhwystro rhag cyflawni twyll, neu i'ch amddiffyn rhag dioddef oherwydd twyll;
- sgrinio unigolion y gellid eu hystyried i fod "yn wleidyddol ddi-amddiffyn";
- asesiadau y mae rheidrwydd arnom gan ein rheoleiddwyr ac awdurdodau perthnasol i'w cynnal er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hobblygiadau rheoleiddiol, er enghraifft penderfynu ar bwy sydd mewn risg o ddod yn ariannol ddi-amddiffyn o dan reoliadau perthnasol;
- penderfynu a yw cyfrif ynghwsg / yn ddi-weddill a delio gyda'i gau; a
- phenderfynu ar werth premiwm yswiriant ar gyfer cwsmeriaid.

Caiff hyn ei adnabod fel "penderfynu awtomatig" a chaiff ei ganiatâu dim ond lle bo gennym sail gyfreithiol dros y math yma o benderfynu. Gallwn benderfynu'n awtomatig amdanoch chi:

- lle mae'r penderfyniadau hynny yn angenrheidiol er mwyn ymuno â chytundeb. Er enghraifft, fe allwn benderfynu peidio â chynnig ein gwasanaethau ichi, neu fe allwn benderfynu ar y mathau o wasanaethau sy'n addas ichi, neu faint i godi am ein cynhyrchion yn seiliedig ar eich hanes credyd ac unrhyw wybodaeth ariannol arall amdanoch chi y byddwn wedi ei gasglu;
- lle bo'r fath benderfyniadau yn ofynnol neu wedi'u hawdurdodi o dan y gyfraith, er enghraifft er mwyn atal twyll; neu

- lle ei fod yn fodd rhesymol o gydymffurfio â rheoliadau neu arweiniad y llywodraeth, fel ein hoblygiad lefel uchel i drin cwsmeriaid yn deg.

Gallwch gysylltu â ni i ofyn i benderfyniad awtomatig gael ei adolygu gan fod dynol.

Sut bydd y prosesau awtomatig yn penderfynu

Asesiadau credyd a fforddiadwyedd

Byddwn yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys gwybodaeth amdanoch chi rydym yn ei gadw sy'n ein hysbysu faint o incwm sydd gennych, faint o dreuliau sydd gennych, a pha mor dda cadwoch ar ben eich taliadau yn y gorffennol. Caiff hyn ei ddefnyddio i gyfrifo faint y gallwn ei fenthycu ichi y byddai modd ichi ei dalu'n ôl inni yn gyffyrddus.

Asesiadau rheoleiddiol

Byddwn yn ystyried gweithgaredd ar eich cyfrifon fel sut 'rydych chi'n cadw ar ben eich taliadau, yn talu dyledion, yn ymestyn gorddrafftiau, ac os ydych yn dangos arwyddion o gyfyngder ariannol. Er enghraifft, lle bo unigolyn yn ymestyn gorddrafft wrth i'w incwm leihau, gallai hynny ddangos bod person yn debygol o fynd i gyfyngder ariannol. Defnyddiwn yr wybodaeth hon i danio cyfathrebiad atoch yn cynnig cymorth, a allai gymryd sawl ffurf.

Eich gwarchod chi a'ch cyfrif rhag twyll / gweithgaredd troseddol

Byddwn yn asesu'ch trafodion, a thrafodion anarferol e.e. trafodion na fuasech chi fel arfer yn eu gwneud, er enghraifft, ar amser neu mewn lleoliad anarferol, a bydd hyn yn tanio rhybuddion a allai'n hatal rhag gwneud taliad lle mae'n ymddangos ei bod yn debygol bod rhywun yn ceisio twyllo'ch cyfrif.

Ein gwarchod ni rhag twyll / gweithgaredd troseddol

Aseswn nifer o ffactorau fel os rhoddoch chi wybodaeth anwir yn y gorffennol, ynghyd â lle y gallech fod wedi'ch lleoli yn ddaeryddol a gwybodaeth bellach am eich hanes credyd er mwyn penderfynu os ydych yn dwyllwr, neu'n fath arall o risg troseddu ariannol (e.e. os yw cynnig gwasanaethau ichi yn gallu bod yn groes i ofynion sancsiynau ariannol).

Cyfrifon gwag a rhai cwsg

Aseswn weithgaredd gennych ar eich cyfrif. Bydd cyfrifon sydd wedi bod ynghwsg neu heb unrhyw weddillion am gyfnod hir yn ysgogi gweithredu ar ein rhan, er enghraifft yn y pen draw fe fydden ni'n cau cyfrifon o'r math.

Prisio (gan gynnwys yswiriant)

Aseswn nifer o ffactorau i benderfynu ar bris cynhyrchion penodol ar eich cyfer, fel mewn perthynas â phremiwm yswiriant cynnwys y cartref, ffactorau fel hanes hawliadau, lle'r ydych yn byw, a gwerth yr eitemau rydych am eu hyswiro. Bydd hyn yn penderfynu'r risg o ddarparu'r yswiriant a thrwy hynny yn penderfynu'r pris y gallwn fod yn barod i'w gynnig ichi.

Eraill

Byddwn hefyd yn eich dadansoddi ar sail eich data personol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- er mwyn dewis cynigion, disgowntiau ac argymhellion wedi eu personoleiddio i'w hanfon atoch wedi ei seilio ar amrywiol briodoleddau e.e. eich hanes credyd, a'ch defnydd o'r cyfrifon a chynhyrchion sydd gennych gyda ni. Byddwch yn ymwybodol y rhown stop ar ddefnyddio'ch data personol i'r dibenion hyn dim ond os gofynnwch inni atal yn llwyr rhag anfon bob math o negeseuon marchnata atoch. Mae hyn yn cynnwys drwy'r post, e-bost, ffôn, negeseuon testun a Bancio Arlein a Bancio Symudol Barclays (os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y gwasanaethau hyn). Nodwch os gwelwch yn dda – os ydych yn gwsmer Premier bydd raid ichi hefyd gael eich eithrio o gyswllt hyrwyddol Premier er mwyn atal y prosesu.
- i gategoreiddio'ch gwario a chyflwyno'r wybodaeth hon ichi mewn amryw o ffyrdd i'ch cynorthwyo i reoli'ch cyllid.
- i'n cynorthwyo i weithio allan pa mor agored rydym fel banc i risg credyd, ond mewn modd na fydd yn effeithio arnoch chi.
- i'n cynorthwyo gyda'n gwaith o fodelu'n prisiau am gynhyrchion, ond mewn modd a fydd yn effeithio arnoch chi cyn lleied â phosib.

Gallwn hefyd gynnal gwiriadau awtomatig rhag gwyngalchu arian a sancsiynau. Golyga hyn y gallwn benderfynu'n awtomatig eich bod yn peri bygythiad o dwyll neu risg o wyngalchu arian os yw'r prosesu yn dangos bod eich ymddygiad cyfystyr ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â gwyngalchu arian neu dwyll, yn

anghyson gyda'ch datganiadau blaenorol, neu ei bod yn ymddangos ichi geisio celu'ch gwir hunaniaeth.

Os byddwn ni, neu asiantaeth rhwystro twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian:

- fe allwn wrthod darparu'r gwasanaethau ichi ofyn amdanynt neu fe allwn beidio â darparu gwasanaethau yr ydych eisoed yn eu derbyn.
- caiff cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian ei gadw gan yr asiantaethau rhwystro twyll, ac fe allai olygu bod eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau neu gyflogaeth ichi.

Mae gennych hawliau parthed penderfynu awtomatig: os ydych am wybod mwy byddwchystal â chysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion sydd yn yr adran Sut i gysylltu â ni.

12. Cwcis

Callwn ddefnyddio cwcis a thechnolegau tebyg ar ein gwefannau, appiau symudol, ac yn ein e-byst. Ffeiliau testun yw cwcis sy'n dal cyfansymiau bychain o wybodaeth, caiff eu storio gan eich cyfrifiadur neu'ch dyfais symudol pan fyddwch yn ymweld â gwefan neu app symudol. Pan ddychwelwch i'r gwefannau neu'r appiau symudol – neu ymweld â gwefannau neu appiau symudol sy'n defnyddio'r un cwcis – caiff y cwcis eu hadnabod a thrwy hynny eich dyfais hefyd.

Byddwn yn defnyddio cwcis i sawl diben, fel eich galluogi i ganfod eich ffordd drwy dudalennau yn effeithiol, cofio'ch ffefrynau a gwella'ch profiad arlein yn gyffredinol. Fe allan nhw hefyd helpu i sicrhau bod yr hysbysebion y gwelwch arlein yn fwy perthnasol i chi a'ch diddordebau. Byddwn hefyd yn defnyddio technolegau tebyg fel tagiau picseol a JavaScript i ymgymryd â'r tasgau hyn.

Byddwn hefyd yn defnyddio cwcis yn rhai o'n e-byst i'n helpu i ddeall ychydig ynglŷn â sut yr ydych yn rhyngweithio gyda'n e-byst, ac i'n helpu i wella'n cyfathrebiadau e-bost yn y dyfodol. Mae'r cwcis hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod yr hysbysebion y gwelwch arlein yn fwy perthnasol i chi a'ch diddordebau.

Mae amodau a thelerau ein gwefannau a'n appiau symudol yn rhoi mwy o wybodaeth am y technolegau hyn, sut a ble y defnyddiwn hwy, a sut y gallwch eu rheoli.

13. Sut i gysylltu â ni

Byddwchystal â mynd i barclays.co.uk/control-your-data os oes gennych unrhyw gwestiynau parthed ein rhybudd preifatrwydd. Os hoffech fwy o wybodaeth am eich hawliau, neu'r hoffech eu hymarfer, byddwchystal ag anfon cais drwy'ch bancio arlein neu ewch i barclays.co.uk/control-your-data.

Gellir cysylltu â'n Swyddog Gwarchod Data yn: The Data Protection Officer, Barclays Bank UK PLC, Caerlŷr, LE87 2BB neu DPO@Barclays.com.

Barclays Bank UK PLC yw'r 'rheolwr data' ar gyfer eich data personol. Golyga hyn ei fod yn gyfrifol am benderfynu sut y defnyddiwn eich data personol. Ar gyfer rhai cwsmeriaid Rheoli Cyfoeth, y rheolwr data yw Barclays Investment Solutions Limited.

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda chi i sicrhau datrysiad teg i unrhyw gŵyn neu bryder am breifatrwydd. Os, serch hynny, y credwch na fu'n bosib inni'ch cynorthwyo gyda'ch cwyn neu bryder, mae'r hawl gennych i gwyno wrth awdurdod gwarchod data y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio'u gwefan - <https://ico.org.uk>.

14. Newidiadau i'r rhybudd preifatrwydd

Gellir gofyn am gopi o'r rhybudd preifatrwydd hwn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Fe allwn newid neu ddiweddarau'r rhybudd preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd.

Lle bydd newidiadau i'r rhybudd preifatrwydd hwn yn effeithio'n sylfaenol ar natur y prosesu, neu fel arall yn cael effaith sylweddol arnoch chi, rhown rybudd digonol o flaen llaw i chi fel bod cyfle i chi ymarfer eich hawliau (e.e. gwrthwynebu'r prosesu).

25 Mai 2018

